**Dr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau Iechyd ac
Ymddiriedolaethau
Deon y Ddeoniaeth Feddygol
Deon yr Ysgol Nyrsio Deon yr
Ysgol Bydwreigiaeth

Ionawr 2020

Annwyl Gydweithiwr

Rheoli a Defnyddio Celloedd Coch O D Negatif

**MATER**

Mae'r Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) wedi cyflwyno polisi newydd ar reoli a defnyddio Celloedd Coch O D Negatif. Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o hyn a'r gofynion a nodir yn y canllawiau atodedig.

**CEFNDIR**

Er bod achosion o gelloedd coch wedi gostwng 6.6% yng Nghymru yn y 3 blynedd diwethaf, mae'r galw am gelloedd coch grŵp O D Negatif (OD Neg) fel canran o'r cyfanswm oherwydd problemau celloedd coch yn parhau i godi.

Datblygwyd y canllawiau hyn gan y grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) i ddarparu gwybodaeth a chymorth i ysbytai yng Nghymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS) i'w helpu i reoli cyflenwadau o gelloedd coch O D Neg yn rhagweithiol o fewn fframwaith clir a chyson.

Dylid ystyried rheolaeth yr unedau hyn fel menter gydweithredol gyda'r ysbytai a Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau penodol i sicrhau'r cyflenwad gorau posibl. Trwy gymhwyso a gweithio i'r egwyddorion hyn bydd yn sicrhau bod cyflenwad digonol o O D Neg o fewn y gadwyn cyflenwi gwaed ac yn helpu i atal prinder sylweddol rhag digwydd.

Datblygwyd y Canllawiau ar y cyd â Rheolwyr Labordai Trallwyso (TLMs) ar draws Cymru ac mae'n ystyried yr holl ffactorau wrth reoli stociau gwaed yn effeithiol yn labordy trallwyso'r ysbyty, yn yr ardal glinigol a lleoliad sefydliadau gwaed.

Mae'r Canllawiau yn gyson â *BCSH Guidelines for Pre-Transfusion compatibility procedures (2013)*[1] a *practical guideline for haematological management of major haemorrhage(2015)*[2].

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon/Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
Ebost:PSChiefMedicalOfficer@wales.gsi.gov.uk

Amlygodd arolwg ailadroddus dynged O D Neg dri maes penodol o ymarfer y gellid dylanwadu arnynt i optimeiddio’r rheolaeth ar O D Negyddol:


- Gwastraff oherwydd bod amser wedi dod i ben (TIMEX)
- Trallwyso i gleifion nad ydynt yn O D Neg er mwyn osgoi TIMEX
- Defnydd brys o OD Neg

Mae'r canllawiau atodedig yn canolbwyntio ar y tri maes hyn.

**CAM GWEITHREDU**

Yr wyf yn eich gwahodd i ddarllen y canllawiau ac asesu’r defnydd priodol ohonynt o fewn

eich sefydliadau  Yn gywir



**DR FRANK ATHERTON**